Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Prentis Arwain Gweithgareddau Awyr Agored | Lleoliad: | Gwersyll Glan-llyn |
| Adran: | Gwersyll Glan-llyn | Cyflog: | £12,394 y flwyddyn |
| Oriau Gwaith: | 35 awr yr wythnos | Cytundeb : | Medi 2024 / cytundeb 13 mis |
| Yn adrodd i : | Rheolwr Adran Gweithgareddau | Rheolaeth Llinell: | Dim |

## Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynnig profiadau, cymwysterau a phrofiad i ddatblygu sgiliau i fod yn hyfforddwr/wraig ysbrydoledig a chadarnhaol yn y maes Awyr Agored.

Mae Gwersyll Glan-llyn yn arbenigo mewn gweithgareddau awyr agored o ansawdd uchel. Mae'r gweithgareddau yma i gyd yn cael eu harwain gan staff cymwys a phroffesiynol a rydym eleni yn cynnwys cyfleon prentisiaeth i unigolion brwdfrydig ymuno a'r tîm.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol yn y maes awyr agored a ddarparwyd gan hyfforddwyr profiadol mewnol ac allanol.
2. Cyfrannu ar ddatblygiad cynllun hyfforddiant personol.
3. Gweithio fel rhan o dîm Adran Weithgareddau Glan-llyn o ddydd i ddydd, gyda chyfrifoldeb am gynorthwyo ac arwain sesiynau gweithgareddau amrywiol y gwersyll.
4. Creu cynlluniau sesiwn er mwyn cyd-fynd gyda thargedau / amcanion y gweithgaredd.
5. Sicrhau fod sesiynau gweithgareddau'r gwersyll yn rhedeg yn llyfn ac o ansawdd uchel.
6. Disgwylir i'r prentis ymgymryd â rota Staff y Gwersyll sy'n golygu bod ar ddyletswydd ar benwythnosau ac oriau hwyr ac anghymdeithasol. Fe roddir amser ychwanegol i ffwrdd am hyn.
7. Mae llawer o ddyletswyddau cyffredinol y Gwersyll yn disgyn i ran aelodau'r Adran Weithgareddau. Bydd y rhain yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw gwahanol ardaloedd ac offer o fewn y Gwersyll, llenwi peiriannau bwyd a diod, a rhoi cymorth i adrannau eraill y Gwersyll yn ôl y galw.
8. Oherwydd natur y Gwersyll, fe fydd rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i alwadau a gofynion amrywiol o dro i dro.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
| --- | --- |
| i. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>ii. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd.<br>iii. Rhaid i'r ymgeisydd fod yn 18 oed neu'n hŷn. | i. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais.<br>ii. Bydd profiad o arwain gweithgareddau o fantais.<br>iii. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru. |

## Hyfforddiant

Fel rhan o'r brentisiaeth bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus, Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r holl hyfforddiant a gynigir.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â Fframwaith Prentisiaeth Lefel 2 Arwain Gweithgareddau.

Mae'r fframwaith yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

NVQ Arwain Gweithgareddau Lefel 2
Tystysgrif Cyflwyniad i Weithio yn yr Awyr Agored Lefel 2
Tystysgrif Hawliau a Chyfrifoldebau Lefel 2
Sgiliau Hanfodol Lefel 1

Yn ogystal, darperir yr hyfforddiant ychwanegol isod:

- Cwrs Diogelu Plant
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Iechyd a Diogelwch
- Ymwybyddiaeth Cyffuriau Mewn Chwaraeon
- Ymarfer Myfyriol
- Gweithdai amrywiol eraill yn cynnwys iechyd meddwl
- Cymwysterau Chwaraeon Penodol

Mae canran fawr o'r hyfforddiant yn digwydd yn y gweithle ac o fewn gweithdai a threfnir yn ystod oriau gwaith. Er hyn, disgwylir i brentisiaid gwblhau darnau o'r gwaith cwrs y tu allan i oriau gwaith yn rheolaidd. Bydd gan bob prentis mynediad at liniadur gwaith er mwyn gwneud hynny.

Mae'r Adran Brentisiaethau yn falch iawn o allu cynnig cymorth arbennig er mwyn i bob prentis lwyddo. Er bod darnau o waith ysgrifenedig yn rhan o'r cwrs, ni ddylai hwn fod yn rhwystr i ymgeiswyr ac mae modd i ni wneud addasiadau a chynnig cymorth ychwanegol pan fo'n briodol.

Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, rhoddir hyfforddiant mewnol ar weithgareddau amrywiol yr adran gan gynnwys trefnu ac arwain gweithgareddau, cynlluniau gwyliau a chystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Fel rhan o'r pecyn hyfforddiant fe gynigir hyfforddiant awyr agored a fydd yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig cyrff llywodraethol. Bydd rhai cyrsiau yn cael eu darparu gan staff y gwersyll, ac eraill gan ddarparwyr profiadol allanol.

Dros y cyfnod fe all unigolyn ddisgwyl derbyn y cymwysterau awyr agored canlynol:-

Cymorth Cyntaf 16 awr (REC)
Lefel 2 Cwch Achub (RYA)
Pool Emergency Responder (STA)
Paddlesport Leader (BCU)
Paddlesport Safety and Rescue (BCU)

Archery GB Instructor (Archery GB)

Yn ogystal â’r hyfforddiant uchod, rhoddir hyfforddiant mewnol ar weithgareddau amrywiol adran weithgareddau Glan-llyn gan gynnwys y Cwrs Rhaffau, Adeiladu Rafft a’r Wal Ddringo.

---

Newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad**:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2019 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU A BUDDIANNAU
**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Prentis Arwain Gweithgareddau Awyr Agored, Lefel 2 |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 3 mis |
| Gwiriad GDG: | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | £12,394 y flwyddyn |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Arwahan i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-Blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personol i'w Lles. |

| | |
|---|---|
| | Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o:<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr urdd |
| Cynllun Beicio: | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000 |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| Cinio am ddim: | Ar hyn o bryd, cynigwn ginio cynnes am ddim i holl staff sy'n gweithio yn y gwersylloedd neu yn ymweld a'r gwersylloedd. |